**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adam Price AC
Arweinydd Plaid Cymru

Adam.Price@cynulliad.cymru

11 Mawrth 2020

Annwyl Adam,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cwestiwn yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog ar 21 Ionawr a'ch e-bost dilynol. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi yn anfon yr ymateb hwn.

Gofynnoch a oedd Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon ym Mwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Cylch gorchwyl Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru yw cefnogi a hwyluso'r gwaith o gydlynu datblygiad a darpariaeth Rheoli Integredig Troseddwyr. Cylch gorchwyl Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yw datblygu polisi a strategaeth i geisio lleihau troseddu ac aildroseddu ledled Cymru.

Nid yw'r cylchoedd gorchwyl hyn yn cynnwys monitro perfformiad y Gwasanaeth Prawf na'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Cyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw hynny. O ganlyniad, nid yw'r Byrddau hyn yn darparu fforwm i godi'r materion a godwyd gennych.

Er hynny, fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn, rydym wedi codi ein pryderon droeon ynghylch peryglon preifateiddio'r Gwasanaeth Prawf, ac roeddem yn falch bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cydnabod sefyllfa unigryw Cymru yn sgil ailuno'r holl waith o reoli troseddwyr yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol fis Rhagfyr y llynedd. Mae'r newidiadau hyn yn cynnig cyfle i wneud pethau mewn ffordd wahanol yng Nghymru, a sicrhau system brawf sy'n gweithio'n effeithiol i'r rhai sydd angen ei gwasanaethau ac sy'n dibynnu arnynt.

Mae llawer o'r gwasanaethau angenrheidiol i gynorthwyo troseddwyr a chyn-droseddwyr, ac i hybu adsefydlu, wedi'u datganoli, ac mae'r rhain yn hanfodol i sicrhau gwasanaeth prawf effeithiol yng Nghymru. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i gefnogi'r gwelliannau sydd eu hangen ar fyrder. Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip a minnau yn cwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i drafod y Gwasanaeth Prawf a materion ehangach ym maes cyfiawnder.

Dymuniadau Gorau

Mark

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.